O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2021 Rhif 1071 (Cy. 253)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A48 (Cylchfan Cross Hands i Fan i'r De-ddwyrain o Gylchfan Pensarn) a Chefnffordd yr A40 (Cylchfan Pensarn i Gylchfan Sanclêr, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2021

Gwnaed	*10 Medi 2021*
Yn dod i rym	*14 Medi 2021*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Gefnffyrdd yr A48 a'r A40, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A48 (Cylchfan Cross Hands i Fan i'r De-ddwyrain o Gylchfan Pensarn) a Chefnffordd yr A40 (Cylchfan Pensarn i Gylchfan Sanclêr, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

.

Dros Dro) 2021 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 14 Medi 2021.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 14 Medi 2021 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw'r darnau hynny o'r cefnffyrdd yr A48 a A40;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Cyfyngiadau a gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlenni 1 a 2 i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 5 yn weithredol.

Atal Dros Dro

7. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlenni 1 a 2 wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 3, 4 a 5 yn weithredol.

Cymhwyso

8.—(1) Ni fydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiad yn erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw terfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

9. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, wrth weithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 10 Medi 2021

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

ATODLEN 1

TERFYNAU CYFLYMDER 50 MYA, 40 MYA A 10 MYA DROS DRO A GWAHARDDIAD DROS DRO AR ODDIWEDDYD

CEFNFFORDD YR A40

i) Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Pont Lesneven hyd at bwynt 116 o fetrau i'r dwyrain o Gylchfan Sanclêr.

ii) Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 116 o fetrau i'r dwyrain o Gylchfan Sanclêr hyd at bwynt 30 metr i'r gorllewin o'i chyffordd â Chylchfan Pont Lesneven.

iii) Y darn hwnnw o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain sy'n ymestyn o bwynt 75 o fetrau o'i chyffordd â'r B4312, Heol Llansteffan, hyd at ei chyffordd â phrif gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd.

CEFNFFORDD YR A48

i) Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 170 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â Chylchfan Cross Hands hyd at bwynt 358 o fetrau i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Pensarn.

ii) Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 50 metr i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Pensarn hyd at bwynt 170 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â Chylchfan Cross Hands.

ATODLEN 2

TERFYN CYFLYMDER 10 MYA DROS DRO A GWAHARDDIAD DROS DRO AR ODDIWEDDYD

CEFNFFORDD YR A40

i) Y darn hwnnw o gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Pensarn hyd at ei chyffordd â Chylchfan Pont Lesneven.

ii) Y darnau cyfan o gerbytffyrdd cylchredol Cylchfannau Pont Lesneven a Phensarn.

CEFNFFORDD YR A48

i) Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r dwyrain cefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Pensarn hyd at bwynt 50 metr i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Pensarn.

ii) Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gorllewin cefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 358 o fetrau i'r de-

ddwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Pensarn hyd at ei chyffordd â Chylchfan Pensarn.